

CYMRAEG



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

Cynllun gweithredu 2018-19



## **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Cynllun gweithredu 2018-19**

### **Cynulleidfa**

Adrannau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau'r sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysg yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; a phartïon eraill â diddordeb.

### **Trosolwg**

Dyma gynllun gweithredu Gweinidogion Cymru ar gyfer 2018-19, a baratowyd yn unol ag Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n esbonio sut byddant yn gweithredu'r cynigion a amlinellir yn eu strategaeth, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* yn ystod y flwyddyn honno. Mae'r cynllun gweithredu yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu'r strategaeth a nodwyd yn *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017-21*, a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Strategaeth Cymraeg 2050.

### **Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Uned y Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: [UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru](mailto:UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru)

### **Copiau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn [www.llyw.cymru/ygymraeg](http://www.llyw.cymru/ygymraeg)

### **Dogfennau cysylltiedig**

*Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017); *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017-21* (2017); *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021* (2016); Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; *Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21* (2017)

---

## Cynnwys

---

<b>Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
<b>Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg</b>	<b>3</b>
<b>Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg</b>	<b>14</b>
<b>Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun</b>	<b>20</b>

---

## Cyflwyniad

---

Cyhoeddwyd Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, ym mis Gorffennaf 2017. Cyhoeddwyd y ddogfen *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21* ar y cyd â Strategaeth *Cymraeg 2050* ac mae'n cynnwys amcanion ar gyfer pedair blynedd cyntaf y strategaeth.

Mae Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi cynllun gweithredu blynyddol yn esbonio sut y byddant yn gweithredu'r cynigion a amlinellir yn Strategaeth *Cymraeg 2050* yn ystod pob blwyddyn ariannol. Dyma'r cynllun gweithredu ar gyfer 2018–19.

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn adlewyrchu themâu *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*.

- **Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.**
- **Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.**
- **Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.**

Mae'r pwyntiau gweithredu ar gyfer y flwyddyn adrodd 2018–19 wedi'u gosod yn erbyn yr amcanion fel y'u nodwyd yn *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* a *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21*.

# Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

**Targed: Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.**

## 1. Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu

**Ein nod:** rhoi'r cychwyn gorau yn yr iaith i'n plant drwy gynyddu cefnogaeth i deuluoedd drosglwyddo'r iaith yn y cartref.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>1.1</b> Cydweithio â'r prif randdeiliaid i ddatblygu polisi cenedlaethol sy'n seiliedig ar waith ymchwil diweddar yn amlinellu sut rydym yn bwriadu sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn cael y cymorth gorau posibl i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant.</p>	<p>Dechreuodd y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol ym mis Ionawr 2018. Bydd y gwaith hwnnw'n parhau. Cyhoeddir fersiwn cyntaf y polisi yn ystod 2018–19. Bydd y polisi yn seiliedig ar astudiaeth ymchwil a gwblhawyd gan Brifysgol Caerdydd ar ran Llywodraeth Cymru ac a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017, <i>Trosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd</i>. Mae'r astudiaeth ar gael yn <a href="http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-language-transmission-use-in-families/?skip=1&amp;lang=cy">gov.wales/statistics-and-research/welsh-language-transmission-use-in-families/?skip=1&amp;lang=cy</a>.</p>
<p><b>1.2</b> Adolygu a mireinio Rhaglen Cymraeg i Blant i sicrhau ein bod yn parhau i roi'r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd ei hangen ar rieni/gofalwyr i wneud dewis gwybodus ynghylch cyflwyno'r Gymraeg i'w plentyn yn y cartref.</p>	<p>Cynhelir gwerthusiad annibynnol o Raglen Cymraeg i Blant yn ystod 2018–19. Bydd y gwerthusiad yn rhan o'r broses o adolygu a mireinio'r rhaglen o fis Ebrill 2019 ymlaen.</p> <p>Gweler hefyd 1.3.</p>
<p><b>1.3</b> Parhau i weithio gyda GIG Cymru i sicrhau bod bydwagedd, ymwelwyr iechyd a phartneriaid eraill yn rhannu gwybodaeth am fanteision trosglwyddo'r iaith mor gynnar â phosibl, a bod rhieni newydd a darpar rieni yn deall y gefnogaeth sydd ar gael iddynt.</p>	<p>Yn ystod 2018, byddwn yn drafftio polisi mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol gyda'r nod o sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn derbyn cefnogaeth i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant, gyda'r nod o gynyddu cyfraddau trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu.</p> <p>Bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â gwerthusiad o'r Rhaglen Cymraeg i Blant, sydd i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2019, er mwyn sicrhau bod y ddau yn cydblethu'n effeithiol. Bydd rôl partneriaid eraill, gan gynnwys GIG Cymru, yn ystyriaeth ganolog i'r darnau hyn o waith er mwyn sicrhau bod rhieni newydd a darpar rieni yn cael gwybodaeth glir a chyson am y gefnogaeth sydd ar gael iddynt.</p>

## 2. Y blynyddoedd cynnar

**Ein nod:** ehangu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>Carreg filltir:</b> Cefnogi'r gwaith o ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar i 40 yn fwy o grwpiau meithrin erbyn 2021 er mwyn hwyluso dilyniant i addysg cyfrwng Cymraeg, a hynny er mwyn cyrraedd 150 yn fwy o grwpiau meithrin dros y degawd nesaf.</p>	
<p><b>2.1</b> Gweithredu'r Cynnig Gofal Plant ar draws Cymru, gan sicrhau mwy o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg dan nawdd y llywodraeth, a chryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar sail yr wybodaeth a ddaw i law yn ystod cyfnod gweithredu cynnar y cynnig o fis Medi 2017.</p>	<p>Caiff y Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru ei ymestyn i fwy o ardaloedd ledled y wlad yn ystod 2018–19. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth a gesglir wrth i'r cynnig gael ei gyflwyno er mwyn dod i ddeall y ddarpariaeth bresennol yn well yn ogystal â dysgu mwy am y niferoedd sy'n manteisio ar y ddarpariaeth Gymraeg.</p> <p>Caiff yr wybodaeth hon ei bwydo i mewn i waith Mudiad Meithrin wrth iddynt ddatblygu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd, yn ogystal â'r gwaith o gynllunio rhaglenni hyfforddi a chymorth, er mwyn ehangu mynediad at ddarpariaeth Gymraeg yn ogystal â chryfhau'r ddarpariaeth bresennol.</p>
<p><b>2.2</b> Parhau i gefnogi'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg bresennol gan gynorthwyo darparwyr i ehangu a dod yn hunan-gynhaliol, yn ogystal â chefnogi ehangu'r ddarpariaeth i greu 40 yn fwy o grwpiau meithrin gan dargedu manau wedi'i hadnabod trwy weithgarwch y Cynnig Gofal Plant lle mae'r ddarpariaeth yn dameidiog ar hyn o bryd.</p>	<p>Mae Mudiad Meithrin wrthi'n cyflwyno rhaglen waith estynedig mewn ymateb i'r nod o ehangu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. O ganlyniad i'r gwaith ychwanegol hwn, bydd grwpiau meithrin newydd yn agor o fis Medi 2018 mewn lleoliadau a glustnodwyd, e.e. lle mae diffyg darpariaeth a lle mae cyfle i blant barhau i fyd addysg Gymraeg.</p>

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>2.3</b>  Drwy Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, cydweithio ag awdurdodau lleol a darparwyr i wella'r cynlluniau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar, er mwyn hwyluso'r dilyniant rhwng grwpiau meithrin Cymraeg ac addysg statudol cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Cafodd Aled Roberts ei benodi fis Chwefror 2018 am 12 mis pellach i barhau â'r gwaith a wnaed ganddo gyda'r adolygiad brys o'r Cynlluniau Stratgeol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), a ddechreuodd yn 2017. Bydd ei waith yn cynnwys sefydlu bwrdd cyngori annibynnol i edrych ar sut orau i weithredu argymhellion yr adolygiad. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y berthynas rhwng y CSGA a darpariaeth y blynyddoedd cynnar.</p>

### 3. Addysg statudol

**Ein nod:** creu system addysg statudol sy'n cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>Carreg filltir:</b> Cynnydd yng nghanran y dysgwyr sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, o 22 y cant (sy'n seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 24 y cant (tua 8,400) erbyn 2021, a hynny er mwyn bod ar y trywydd iawn i gyrraedd 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp oedran) erbyn 2031 ac yna 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp oedran) erbyn 2050.</p>	
<p><b>3.1</b> Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu a chyhoeddi cyn diwedd 2017, polisi cenedlaethol ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg yn ein system addysg statudol, yn seiliedig ar waith ymchwil a thystiolaeth.</p>	<p>Cyhoeddwyd <i>Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017–21</i> ym mis Rhagfyr 2017.</p> <p>Mae gwaith paratoadol yn mynd rhagddo i gynnal gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol a'r Siarter Iaith Gymraeg.</p> <p>Byddwn yn parhau i gynnal ymchwil i faes addysgeg a'r Gymraeg.</p> <p>Byddwn yn bwrw ati i gomisiynu ymchwil ar agweddau pobl ifanc tuag at y Gymraeg a'u defnydd ohoni.</p>
<p><b>3.2</b> Datblygu un continwmm o addysgu a dysgu Cymraeg i'w gyflwyno fel rhan o'r cwricwlwm newydd ym mhob ysgol yng Nghymru a sicrhau bod y gwaith o asesu ac arholi sgiliau Cymraeg a gwybodaeth am y Gymraeg yn gwbl gysylltiedig â'r addysgu a'r dysgu.</p>	<p>Bydd y cwricwlwm newydd, a fydd yn cynnwys un continwmm o ddysgu Cymraeg, yn cael ei gyflwyno o fis Medi 2022. Mae'r gwaith o ddatblygu'r continwmm yn parhau i gynnwys camau cynnydd, arfer gorau o ran addysgeg ac ymchwil i gymwysterau.</p> <p>Mae ymchwil ym maes addysgeg yn parhau.</p>
<p><b>3.3</b> Sefydlu bwrdd annibynnol i roi cyngor ar newidiadau i brosesau cynllunio addysg Gymraeg.</p>	<p>Cafodd Aled Roberts ei benodi fis Chwefror 2018 am 12 mis i barhau gyda'r gwaith a wnaed ganddo gyda'r adolygiad brys o'r CSGA yn 2017. Mae ei waith yn cynnwys sefydlu bwrdd cynghori annibynnol i edrych ar sut orau i weithredu'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad.</p> <p>Cyfarfu'r bwrdd cynghori am y tro cyntaf ar 17 Mai 2018, a bydd yn parhau i gyfarfod yn fisol. Mae'r aelodau yn cynnwys Meirion Prys Jones, Bethan Morris Jones, Sarah Mutch a Huw Foster Evans. Bydd y bwrdd yn cyfarfod pob pedwar i chwech wythnos hyd at fis Mawrth 2019. Un o brif dasgau'r bwrdd cynghori fydd adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n cefnogi cynllunio addysg Gymraeg, sef Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg (Cymru) 2013.</p>



Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>3.4</b> Adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n sail i gynllunio addysg Gymraeg.</p>	<p>Bydd y bwrdd cynghori annibynnol, fel mater o flaenoriaeth, yn adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n cefnogi cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Mae amserlen ddrafft ar gyfer diwygio'r Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg (Cymru) 2013 wedi'i phennu. Er mwyn caniatáu digon o amser i awdurdodau lleol addasu i unrhyw drefn newydd cyn cychwyn ar y cylch nesaf o CSGA o 2020 ymlaen, bydd gofyn bod rheoliadau newydd ar waith erbyn Mehefin 2019. Gyda hynny mewn golwg, rydym yn bwriadu ymgynghori'n gyhoeddus ar set newydd o reoliadau yn ystod tymor yr hydref 2018.</p>
<p><b>3.5</b> Creu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg drwy gynllunio uchelgeisiol, a phennu targedau cyraeddadwy ond realistig, gan wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd eisoes gennym. Gallai hyn gynnwys buddsoddi cyfalaf drwy'r Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.</p>	<p>Cyhoeddwyd £30 miliwn ar gyfer prosiectau cyfalaf i gefnogi a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg. Mae hyn yn ychwanegol i'r dyraniad presennol a gyhoeddwyd ar gyfer Band B y Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.</p> <p>Diben y cyllid yw cynnig gwerth ychwanegol. Bydd y cyllid yn cael ei ddyrannu ar gyfradd o 100%. Gan ein bod yn awyddus i sicrhau twf cyflym ac ystyrlon yn y sector cyfrwng Cymraeg, rydym yn darparu'r buddsoddiad i roi hwb i ddatblygiadau na fyddent wedi bod yn bosibl fel arall.</p>
<p><b>3.6</b> Adolygu'r diffiniadau a'r categorïau ar gyfer ysgolion yng Nghymru yn unol â'r iaith addysgu.</p>	<p>Fel rhan o'r argymhellion a gyflwynwyd gan Aled Roberts yn ei Adolygiad Brys o'r CSGA, bydd Argymhelliad 8 – Symleiddio proses categoreiddio ieithyddol ysgolion – yn cael ei drafod a'i ystyried gan y bwrdd cynghori annibynnol.</p>
<p><b>3.7</b> Adolygu'r broses ar gyfer cynyddu cyfran yr addysgu a'r dysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion.</p>	<p>Cyflwynodd Aled Roberts argymhelliad yn ei adolygiad brys o'r CSGA i edrych ar hyfforddiant/recrwtio, Argymhelliad 13 – Cynllunio a gweithredu brys er mwyn cynyddu'r nifer o athrawon sydd yn cael eu hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg. Bydd hyn yn fater i'w drafod a'i ystyried felly gan y bwrdd cynghori annibynnol.</p> <p>Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr o'r meysydd polisi priodol ym maes Addysg (e.e. o ran datblygiadau gyda chonsortia rhanbarthol, prosesau hyfforddi a recrwtio athrawon) i sicrhau cynnydd.</p>

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>3.8</b> Cadarnhau ac ehangu'r cyfleoedd i ddysgwyr gael addysg cyfrwng Cymraeg, yn y sector cynradd ac uwchradd, drwy ddarpariaeth benodol i hwyrddyfodiaid.</p>	<p>Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol nodi yn eu CSGA sut i gynyddu cyfleoedd trochi hwyr ar gyfer dysgwyr addysg cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â nhw i gryfhau'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer hwyrddyfodiaid.</p>
<p><b>3.9</b> Datblygu ymgyrchoedd marchnata creadigol i gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Yn ystod 2018–19, bydd swyddogion marchnata'r Gymraeg, tîm cynllunio'r cwricwlwm, a swyddogion y Gymraeg mewn Addysg yn cydweithio i ddatblygu ymgyrchoedd addas sy'n cyd-fynd ag amserlen cyflwyno'r cwricwlwm newydd.</p>
<p><b>3.10</b> Cryfhau'r cysylltiadau ag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, ysgolion, darparwyr y blynyddoedd cynnar a'r sector ôl-16 er mwyn gwella'r cyfraddau dilyniant rhwng gwahanol gyfnodau addysg.</p>	<p>Byddwn yn parhau i gydweithio a chryfhau'r cysylltiadau gyda phob un o'n partneriaid er mwyn gwella'r cyfraddau dilyniant ym mhob cyfnod addysg. Bydd Argymhellion 1 a 3 o adolygiad brys CSGA Aled Roberts hefyd yn ystyriaethau perthnasol wrth gytuno ar y deilliannau mwyaf pwrpasol a phriodol ar gyfer y cylch nesaf o'r CSGA.</p>

## 4. Addysg ôl-orfodol

**Ein nod:** datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'wdefnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>4.1</b> Ymateb i argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen sy'n adolygu gweithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan roi sylw penodol i'r cyfraddau sy'n mynd ymlaen i addysg uwch, a datblygu addysg a sgiliau dwyieithog sy'n ymateb i anghenion yr economi.</p>	<p>Bydd Grŵp Cynllunio Ôl-16 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn llunio cynllun gweithredu i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn diwedd 2018–19. Bydd y cynllun hwn yn rhoi cyfeiriad o ran sut i symud ymlaen gyda'r gwaith o ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector, a chreu dilyniant ieithyddol o'r cyfnod statudol.</p>
<p><b>4.2</b> Parhau i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog addysg bellach o ran y cyrsiau sydd ar gael a niferoedd y myfyrwyr sy'n eu dilyn.</p>	<p>Bydd Grŵp Cynllunio Ôl-16 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn llunio cynllun gweithredu cyn diwedd 2018–19 a fydd yn gosod cyfeiriad ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth. Ar yr un pryd, byddwn yn annog ac yn monitro twf y ddarpariaeth mewn partneriaeth â'r Changen Cynllunio a Chyllido Addysg Ôl-16 Llywodraeth Cymru.</p>
<p><b>4.3</b> Sicrhau bod mwy o ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni dysgu seiliedig ar waith yn cael y cyfle i gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn manteisio ar y cyfle hwnnw, gan gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn eu haddysg, ni waeth pa mor rhugl ydynt.</p>	<p>Byddwn yn parhau i gydweithio â'n partneriaid i hybu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Fel rhan o waith y Coleg Cymraeg a'r cyfeiriad a fydd yn cael ei osod gan y Grŵp Cynllunio Ôl-16, bydd y sector dysgu seiliedig ar waith yn rhan greiddiol o'r gwaith o lunio'r cynllun gweithredu.</p>
<p><b>4.4</b> Datblygu ymgyrchoedd marchnata drwy gydweithio â chyflogwyr i gynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc o werth sgiliau dwyieithog yn y gweithle.</p>	<p>Yn ystod 2018–19, byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynnal gwaith ymchwil i wella ein dealltwriaeth o agweddau ein cynulleidfaoedd ac yn ystyried sut orau i elwa ar yr ymchwil mewn perthynas â'r Gymraeg</li> <li>• cynllunio er mwyn creu partneriaethau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid</li> <li>• cydweithio'n agos â swyddogion y byd busnes i gynyddu ymwybyddiaeth cyflogwyr o werth y Gymraeg.</li> </ul>

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>4.5</b> Drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ehangu darpariaeth Cymraeg i Oedolion i gynnwys mwy o hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle.</p>	<p>Bydd Rhaglen Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn parhau yn ystod 2018–19. Bydd yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2017–18, gan gynnig ystod ehangach o gyrsiau yn ogystal â hyfforddiant wedi ei deilwra i anghenion meysydd penodol, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, gofal plant, manwerthu, lletygarwch a thwristiaeth.</p>

## 5. Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

**Ein nod:** cynllunio er mwyn cynyddu a gwella'n sylweddol:

- y gweithlu addysg a hyfforddiant sy'n gallu addysgu'r Gymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- yr adnoddau a'r cymwysterau sydd eu hangen i gefnogi cynnydd yn y ddarpariaeth.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>Cerrig milltir:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnydd yn nifer yr athrawon cynradd sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg o 2,900 i 3,100 yn 2021.</li> <li>• Cynnydd yn nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu Cymraeg o 500 i 600 erbyn 2021, a'r nifer sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 1,800 i 2,200 erbyn 2021.</li> </ul>	
<p><b>5.1</b> Ehangu cynllun hyfforddiant cenedlaethol y Mudiad Meithrin i sicrhau fod mwy o unigolion yn cymhwyso i allu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector gofal plant.</p>	<p>Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Mudiad Meithrin er mwyn cynnig cyfleoedd i staff a gwirfoddolwyr ddatblygu sgiliau mewn amrywiaeth o feysydd drwy'r Rhaglen Academi. Bydd Mudiad Meithrin hefyd yn edrych i gynnig arlwy o gyrsiau ar-lein i'w aelodau er mwyn ehangu ar y cyfleoedd i unigolion allu elwa o'r hyfforddiant.</p> <p>Bydd Mudiad Meithrin yn parhau i gynnig cyfle i weithwyr blynyddoedd cynnar ennill Diploma Lefel 3 Gofal Plant drwy gyfrwng y Gymraeg, gan dargedu ardaloedd lle mae bwriad i ehangu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg (gweler hefyd 2.2).</p> <p>O hydref 2018, bydd holl aelodau Cwlwm, sy'n cynnwys Mudiad Meithrin, yn gallu elwa ar gyfres newydd o gyrsiau wedi'u teilwra i anghenion y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant, a ddatblygwyd yn ddiweddar gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.</p>
<p><b>5.2</b> Datblygu dealltwriaeth glir o sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg a'i allu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynllunio'r gweithlu.</p>	<p>Yn ystod 2018–19, bydd y consortia rhanbarthol yn cynnal awdit o sgiliau ymarferwyr fel sail i waith cynllunio pellach.</p> <p>Bydd cwestiynau am sgiliau ieithyddol ymarferwyr a'u gallu i addysgu drwy'r Gymraeg yn cael eu cynnwys fel rhan o'r broses o gasglu data'r gweithlu ysgolion o 2019 ymlaen, yn unol â'r rheoliadau.</p>

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>5.3</b> Sicrhau bod rhaglenni hyfforddiant ac addysg cychwynnol athrawon y dyfodol yn meithrin gwerthfawrogiad athrawon dan hyfforddiant o'r Gymraeg ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu eu hyfedredd yn y Gymraeg a'u harbenigedd i addysgu drwy'r Gymraeg.</p>	<p>Bydd gwerthusiad o'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg presennol mewn addysg gychwynnol athrawon yn adrodd yn ystod haf 2018. Bydd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau Cymraeg mewn addysg gychwynnol athrawon.</p> <p>Ym mis Medi 2018, byddwn yn cyflwyno cymhelliant cyfrwng Cymraeg newydd, laith Athrawon Yfory (IAY), a fydd yn targedu athrawon dan hyfforddiant uwchradd sy'n hyfforddi i addysgu pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Bydd hyn yn ategu darpariaeth y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, er mwyn gwella ansawdd a hyder yr addysgu a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel uwchradd.</p> <p>Mar rhagor o fanylion mewn perthynas â'r Gymraeg ac addysg i'w canfod yn <i>Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017–21</i> sydd ar gael ar-lein yn <a href="http://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/welshmededuca/?skip=1&amp;lang=cy">gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/welshmededuca/?skip=1&amp;lang=cy</a>.</p>
<p><b>5.4</b> Datblygu rhaglen ddysgu broffesiynol i sicrhau bod pob ymarferydd yn gallu datblygu ei sgiliau Cymraeg yn barhaus yn unol â'r disgwyliad yn y safonau proffesiynol newydd. Bydd hyn yn cynnwys ehangu'r Cynllun Sabothol ar gyfer Hyfforddiant Iaith Gymraeg a chefnogaeth drwy'r consortia rhanbarthol.</p>	<p>Byddwn yn parhau i ddatblygu'r Cynllun Sabothol, gan gynnwys y cwrs blwyddyn i ymarferwyr ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.</p> <p>Bydd consortia rhanbarthol yn cynllunio a darparu hyfforddiant i ymarferwyr ar lefel ranbarthol a lleol.</p> <p>Bydd gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol yn cael ei gomisiynu. Y bwriad yw i'r gwerthusiad ddechrau yn ystod haf 2018 a hynny am gyfnod o dair blynedd.</p>
<p><b>5.5</b> Cefnogi y gweithlu o fewn y sector addysg ôl-16 i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg drwy gynllun hyfforddiant penodol er mwyn cynyddu capasiti'r sector i ddysgu ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Er mwyn cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cwblhau rhan o'u haddysg yn Gymraeg ac yn ddwyieithog, byddwn yn parhau i gefnogi Sgiliaith i ddarparu cefnogaeth ymarferol ar ddefnyddio'r Gymraeg a dysgu'n ddwyieithog i diwtoriaid mewn colegau addysg bellach, ac i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith.</p> <p>Byddwn yn cynnal Rhaglen Cymraeg Gwaith yn y colegau addysg bellach i ddatblygu sgiliau ieithyddol tiwtoriaid, er mwyn galluogi rhagor o ddysgu dwyieithog.</p>

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>5.6</b> Cynllunio seilwaith Cymru gyfan ar gyfer cynhyrchu adnoddau perthnasol ac amserol ar gyfer y cwricwlwm a chymwysterau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda ffocws o'r newydd ar y sectorau ôl-16.</p>	<p>Byddwn yn gweithio gyda'r Grŵp Rhanddeiliad Adnoddau Dwyieithog i ddatblygu opsiynau ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Bydd y rhaglen gomisiynu adnoddau yn parhau i ddatblygu adnoddau i fodloni anghenion y cwricwlwm a'r cymwysterau presennol, ac i baratoi at y cwricwlwm a'r cymwysterau newydd.</p>
<p><b>5.7</b> Datblygu mwy o adnoddau Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.</p>	<p>Byddwn yn gweithio gyda thimau mewnol i adnabod anghenion ac i gomisiynu adnoddau.</p> <p>Fel rhan o'r rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol (ADY), mae gwaith wedi dechrau i adnabod yr angen i sgrinio ADY ac offerynnau asesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu drwy ymgynghori â rhanddeiliaid allanol.</p>
<p><b>5.8</b> Cydweithio â Cymwysterau Cymru i gynyddu nifer y cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael yn y Gymraeg.</p>	<p>Byddwn yn parhau i gydweithio â Chymwysterau Cymru i sicrhau bod ystod o gymwysterau ac asesiadau priodol ar gael yn y Gymraeg. Bydd Grŵp Cynllunio Ôl-16 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn llunio cynllun gweithredu cyn diwedd 2018–19 a bydd cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan annatod o'r gwaith hwnnw.</p>

## Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

**Targed:** Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050.

### 6. Y gweithle

**Ein nod:** cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<b>6.1</b> Sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn arwain drwy esiampl drwy hybu a hwyluso cynnydd yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg gan ein gweithlu ein hunain.	Byddwn yn cytuno ar bolisi defnydd mewnol ar gyfer Llywodraeth Cymru, ac yna rhoi cynllun gweithredu ar gyfer y polisi ar waith.
<b>6.2</b> Parhau i lunio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth er mwyn cynyddu nifer y gweithleoedd sy'n cynnig cyfleoedd i ddefnyddio sgiliau Cymraeg.	Gweler 7.2.
<b>6.3</b> Datblygu a chyflwyno fframwaith cymorth cenedlaethol fel rhan o raglen newydd i hybu'r Gymraeg er mwyn annog busnesau a sefydliadau'r trydydd sector i groesawu dwyieithrwydd yn y gweithle a chymryd camau i wneud hynny'n realiti.	<p>Fis Tachwedd 2017, sefydlwyd rhwydwaith newydd o swyddogion 'Cymraeg Byd Busnes' er mwyn diwallu'r angen am gymorth ymarferol i fusnesau bach a chanolig gael defnyddio'r Gymraeg. Cyflogwyd deg swyddog ac un rheolwr i ddarparu gwasanaeth ledled Cymru. Cafodd y rhwydwaith ei lansio'n swyddogol fis Mai 2018, a chynhelir rhaglen o weithgareddau gydol y flwyddyn i hyrwyddo defnydd o'r gwasanaeth. Bydd y rhain yn cynnwys digwyddiadau gyda rhwydweithiau busnes lleol a chynghorau sir, ymgyrch hysbysebu wedi'i thargedu at fusnesau drwy'r cyfryngau cymdeithasol, a rhannu enghreifftiau o arfer da gan fusnesau sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth er mwyn ennyn mwy o ddiddordeb. Bydd y rhwydwaith yn defnyddio fframwaith i fesur effaith ieithyddol a chynnydd y gwaith.</p> <p>Bydd y rhwydwaith yn cynnal peilot gyda busnesau yn y sector gofal iechyd yn ystod 2018–19. Bydd y peilot yn digwydd mewn dwy ardal benodol i gael gwell dealltwriaeth o anghenion y sector.</p>



Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>6.4</b> Lansio rhaglen hyfforddi genedlaethol – Deall Dwyieithrwydd – i sefydlu ymwybyddiaeth o'r iaith a chynllunio'r gweithlu fel rhan annatod o wasanaeth y sector cyhoeddus.</p>	<p>Cynhelir ymchwil gefndirol i'r rhaglen, gan gynnwys dadansoddi cynnwys cyrsiau ymwybyddiaeth iaith cyfredol, ac arolwg llenyddiaeth o ymchwil ar ymyraethau llwyddiannus mewn meysydd cydraddoldeb y gellir eu haddasu at ddibenion Strategaeth Cymraeg 2050. Y gobaith yw treialu rhaglen gychwynnol o ymyraethau mewn gweithleoedd penodol yn ystod ail hanner y flwyddyn er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd gyda chynulleidfaoedd penodol.</p>
<p><b>6.5</b> Ehangu cyfleoedd hyfforddi Cymraeg yn y Gweithle i gyrff y sector cyhoeddus a phreifat er mwyn gwella sgiliau Cymraeg yn y gweithle, gan roi pwyslais penodol ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.</p>	<p>Gweler 4.5.</p>

## 7. Gwasanaethau

**Ein nod:** cynyddu ystod y gwasanaethau a gynnigir i siaradwyr Cymraeg, a chynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>7.1</b> Adolygu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 â'r nod o sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.</p>	<p>Bydd gwaith yn mynd yn ei flaen i ddatblygu cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil y Gymraeg. Cam nesaf y broses fydd llunio cyfarwyddiadau cyfreithiol.</p> <p>Mae'r gwaith o baratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn mynd rhagddo.</p> <p>Bydd gwaith yn digwydd yn ystod 2018–19 hefyd i benodi Comisiynydd y Gymraeg newydd, a hynny erbyn diwedd mis Mawrth 2019.</p>
<p><b>7.2</b> Parhau i gyflwyno Safonau'r Gymraeg i sefydliadau o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth.</p>	<p>Cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes mewn datganiad llafar i Aelodau'r Cynulliad ar 5 Mehefin, na fyddwn ni yn cyflwyno mwy o Safonau'r Gymraeg ar gyfer sectorau eraill am y tro. Yn hytrach, byddwn yn canolbwyntio ein hadnoddau ar ddatblygu'r Bil newydd.</p>
<p><b>7.3</b> Gwneud gwaith ymchwil i dechnegau newid ymddygiad er mwyn cyflwyno gwasanaethau yn well mewn ymateb i'r nifer cynyddol o gwsmeriaid sy'n dymuno defnyddio gwasanaethau Cymraeg.</p>	<p>Mae prosiect ymchwil peilot wedi'i lansio drwy'r cynllun Grant Cymraeg 2050 ar gyfer prosiectau newydd ac arloesol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r prosiect hwn yn arbrofi ag 'addewidion' ieithyddol er mwyn newid arferion defnydd o'r Gymraeg mewn sefydliad. Y gobaith yw ehangu'r fethodoleg i sefydliadau pellach os bydd yn llwyddiant.</p>
<p><b>7.4</b> Adolygu a gwerthuso'r cynnydd a wnaed o ran y pwyntiau gweithredu a amlinellwyd yn <i>Mwy na geiriau . . . . Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016–2019</i>, gan gynnwys darparu'r cynnig rhagweithiol.</p>	<p>Mae'r fframwaith strategol olynol <i>Mwy na geiriau . . . .</i> yn cwmpasu 2016–19 felly penderfynwyd y byddai'n amserol i gomisiynu gwerthusiad o'r fframwaith er mwyn asesu ei gynnydd a'i effaith. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cytuno y dylid cynnal y gwerthusiad, yn ogystal â'r cyllid ar gyfer y gwaith, a bwriedir mynd allan i dendr i gynnal y gwerthusiad ym mis Mai 2018. Bydd y gwerthusiad yn cynnwys adroddiad cynnydd interim yn dilyn adolygiad llenyddiaeth gychwynnol a gynhaliwyd yn ystod Hydref/Tachwedd 2018.</p>

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>7.5</b> Fel rhan o'r Fframwaith Cymorth Cenedlaethol i Fusnesau, cynyddu dealltwriaeth a manteisio ar gyfleoedd i gryfhau gwasanaethau dwyieithog i gwsmeriaid.</p>	<p>Gweler 6.3.</p>

## 8. Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

**Ein nod:** sdefydlu arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>8.1</b> Sefydlu Rhaglen Hybu'r Gymraeg newydd i ddatblygu a darparu cynllun cydgysylltiedig i annog y defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywydau pobl.</p>	<p>Sefydlwyd bwrdd cynllunio i fynd i'r afael â'r dasg hon. Cyflwynir Rhaglen Hybu'r Gymraeg i Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes erbyn Ebrill 2019.</p> <p>Fel rhan o'n gwaith i hybu'r Gymraeg, yn ystod 2018–19, byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• lansio Llinell Gyswllt i'r Gymraeg er mwyn cynnig gwasanaeth cyfieithu am ddim i fusnesau bach ac elusennau</li> <li>• cynnal gwaith mewn perthynas â defnydd pobl ifanc o'r Gymraeg mewn sefydliadau addysg bellach</li> <li>• parhau â gwaith y rhwydwaith Cymraeg Byd Busnes</li> <li>• cyhoeddi Cynllun Gweithredu Technoleg a'r Gymraeg.</li> </ul>
<p><b>8.2</b> Rhoi fframwaith ystyrlon ar waith er mwyn annog arferion iaith cadarnhaol ymhlith plant a phobl ifanc ac i feithrin cysylltiadau cryfach rhwng ysgolion, sefydliadau ieuencid a grwpiau cymunedol.</p>	<p>Yn ystod 2018–19, byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ariannu cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol</li> <li>• mapio'r ddarpariaeth gymunedol yn sirol</li> <li>• datblygu cynlluniau gweithredu sirol er mwyn sicrhau mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a chryfhau'r cydweithio rhwng darparwyr.</li> </ul> <p>Byddwn hefyd yn mynd ati i gynyddu defnydd iaith anffurfiol yn y gyfundrefn addysg drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• adeiladu ar y Siarter Iaith Gymraeg i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer pob lleoliad ysgol. Bydd yn darparu sail ysgol gyfan ar gyfer cynllunio ac yn cynnig cyfleoedd i gynyddu defnydd ehangach dysgwyr o'r Gymraeg a gwreiddio arferion defnydd iaith</li> <li>• datblygu rhaglen hyfforddi i ymarferwyr i'w galluogi i drafod defnydd iaith a meithrin agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith ymhlith dysgwyr o bob oedran</li> <li>• comisiynu ymchwil i ddeall agweddau plant a phobl ifanc tuag at yr iaith fel sail i ddatblygiad parhaus y Siarter Iaith Gymraeg.</li> </ul>

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>8.3</b> Parhau i weithio gyda sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a ariennir gennym, gan sicrhau bod y cyfleoedd ariannu yn gydnaws â'r strategaeth yn ogystal ag anghenion lleol.</p>	<p>Byddwn yn rheoli cynllun grant i hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar gyfer 2018–19, ac yn cynllunio a chreu cynllun grant newydd ar gyfer 2019 ymlaen.</p>
<p><b>8.4</b> Trwy ein cynlluniau cyllido, cefnogi teuluoedd i annog eu plant i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.</p>	<p>Byddwn yn ariannu cyfleoedd i deuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant ac yn ariannu ymyraethau i annog teuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant.</p>
<p><b>8.5</b> Cryfhau'r cysylltiadau â sefydliadau'r trydydd sector er mwyn cynyddu eu gallu i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn ogystal â denu a chadw gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg.</p>	<p>Byddwn yn cydweithio gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), Comisiynydd y Gymraeg a'r Gangen Polisi Cymunedol a Thrydydd Sector i greu cynllun i ehangu defnydd a darpariaeth y Gymraeg gan sefydliadau'r trydydd sector.</p>
<p><b>8.6</b> Datblygu rhaglen genedlaethol i gefnogi siaradwyr Cymraeg newydd mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a phartneriaid yn y gymuned.</p>	<p>Bydd peilot o gynllun 'Siarad', sy'n seiliedig ar Raglen Voluntariat per La Llengua Catalwnia, ac sydd ar y gweill mewn pedair ardal ar draws Cymru, yn dirwyn i ben fis Gorffennaf 2018. Byddwn yn gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sy'n arwain ar y peilot hwn, a phartneriaid eraill i gynllunio sut i ddatblygu'r gefnogaeth sydd ar gael i siaradwyr newydd o haf 2018 ymlaen.</p>

## Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

### 9. Cymuned a'r economi

**Ein nod:** cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<b>9.1</b> Cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig <i>Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg.</i>	Cyhoeddwyd TAN 20 diwygiedig ar 12 Hydref 2017.
<b>9.2</b> Datblygu pwyslais rhanbarthol newydd ym maes datblygu economaidd i helpu pob rhan o Gymru i ffynnu a chefnogi pob ardal i ddatblygu ei hunaniaeth nodweddiadol ei hun.	<p>Cyhoeddwyd <i>Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru</i> ar 12 Rhagfyr 2017, yn gosod model datblygu economaidd newydd ar sail ranbarthol. Mae'r cynllun gweithredu ar gael yn <a href="http://gov.wales/topics/businessandconomy/economic-action-plan/?skip=1&amp;lang=cy">gov.wales/topics/businessandconomy/economic-action-plan/?skip=1&amp;lang=cy</a>.</p> <p>Mae Cam 1 y Cynllun Gweithredu Economaidd, rhwng Ionawr a Mai 2018, yn canolbwyntio ar gefnogi busnesau a datblygu'r Contract Economaidd, Meysydd Gweithredu a Chronfa Dyfodol yr Economi.</p> <p>Mae Cam 2 y Cynllun Gweithredu Economaidd, o fis Mai 2018 ymlaen, yn canolbwyntio ar ddatblygiad economaidd rhanbarthol a sut i ymdrin â sectorau sylfaen a sectorau thematig cenedlaethol, gan gofio'r cysylltiad rhwng y Gymraeg ac economïau lleol llewyrchus.</p>
<b>9.3</b> Rhoi'r fframwaith ar gyfer y Gymraeg a'r canllawiau a ddatblygwyd ar y cyd â datblygwyr Wylfa Newydd ar waith a'u hadolygu.	Yn ystod 2018–19, byddwn yn parhau â'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>9.4</b> Wrth ystyried cynnwys Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, byddwn yn chwilio am dystiolaeth sy'n dangos fod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ystyriaeth lawn fel rhan o ddatblygiadau polisi a chynllunio'r awdurdodau lleol, gan gynnwys adnabod cyfleoedd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy gytundebau adran 106.</p>	<p>Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran Gynllunio ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru a'r cynlluniau datblygu lleol sy'n cael eu llunio ar hyn o bryd.</p> <p>Byddwn hefyd yn sicrhau bod yna ddealltwriaeth dda o'r maes hwn yn y gwahanol feysydd polisi ar draws Llywodraeth Cymru.</p>
<p><b>9.5</b> Buddsoddi mewn rhaglenni entrepreneuriaidd sy'n cefnogi siaradwyr Cymraeg yng nghefn gwlad.</p>	<p>Bydd y gwaith o fynd ati i gefnogi rhaglenni entrepreneuriaeth yn dechrau yn ystod ail hanner 2018–19.</p>
<p><b>9.6</b> Gorchymyn i'r Comisiwn Seilwaith sicrhau bod y strategaeth yn cael ei hystyried wrth ddarparu cyngor i Weinidogion ynghylch buddsoddi mewn seilwaith.</p>	<p>Byddwn yn datblygu'r berthynas â'r Comisiwn Seilwaith i sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth wrth fuddsoddi mewn seilwaith.</p>
<p><b>9.7</b> Yn dilyn Brexit, sicrhau bod y gefnogaeth i'r diwydiant amaeth fel cyflogwr/busnes allweddol yng nghadarnleoedd y Gymraeg yn parhau.</p>	<p>Mae swyddogion polisi Is-adran y Gymraeg mewn trafodaethau parhaus â swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru i geisio lliniaru unrhyw effeithiau negyddol a allai effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i ymateb i Strategaeth Cymraeg 2050.</p>
<p><b>9.8</b> Sicrhau bod yna Gynlluniau Datblygu Lleol ar draws Cymru, a helpu i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol fel bo'u hangen. Dylai pob cynllun roi ystyriaeth i'r Gymraeg.</p>	<p>Erbyn hyn, mae 22 o'r 25 awdurdod cynllunio lleol wedi mabwysiadu cynllun datblygu lleol. Mae sawl cynllun yn agosáu at gyfnod adolygu, ac yn sgil Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, wrth baratoi neu adolygu pob cynllun datblygu lleol, rhaid rhoi ystyriaeth i'w effeithiau ar y Gymraeg.</p>

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>9.9</b> Lansio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd, a fydd yn ystyried y Gymraeg yn elfen bwysig.</p>	<p>Ein bwriad yw cyhoeddi fersiwn ddrafft o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fis Gorffennaf 2019, felly bydd y paratodau sy'n cynnwys casglu tystiolaeth a digwyddiadau ymgysylltu yn digwydd drwy gydol 2018–19. Byddwn yn ystyried effeithiau'r fframwaith ar y Gymraeg yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.</p>



## 10. Diwylliant a'r cyfryngau

**Ein nod:** sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod fel rhan annatod o'n diwylliant cyfoes.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>10.1</b> Sicrhau bod sefydliadau diwylliannol, celfyddydol a chwaraeon yng Nghymru yn gallu cael gafael ar yr help sydd ei angen arnynt i hybu'r Gymraeg a chynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Byddwn yn disgwyl i'r cyrff a noddir gennym, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chwaraeon Cymru, chwarae rhan flaenllaw i'n helpu ni i wneud hyn.</p>	<p>Byddwn yn cynnal seminar gyda chynrychiolwyr cyrff a noddir gennym i roi gwybod iddynt am y rhan sydd ganddynt i'w chwarae i'n helpu i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Bydd hyn yn gyfle i rannu arferion da a chynghori ar ffyrdd o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithgareddau.</p>
<p><b>10.2</b> Defnyddio'r Gymraeg fel rhan o 'Brand Cymru' i hybu Cymru er mwyn denu twristiaeth a buddsoddiadau.</p>	<p>Byddwn yn datblygu'r cynnig Cymraeg fel rhan o ymgyrchoedd marchnata aml-sector yng Nghymru, naws am le, a phrofiad yr ymwelydd.</p> <p>Byddwn yn datblygu cynnwys Cymraeg i hyrwyddo Cymru ac yn defnyddio'r cynnwys hwnnw ar blatfformau amlieithog yn y dyfodol.</p> <p>Byddwn yn parhau i ddatblygu brand newydd Cymru mewn ffyrdd a fydd yn cryfhau hunaniaeth/presenoldeb y Gymraeg mewn ymgyrchoedd a deunyddiau yn ôl yr angen.</p>
<p><b>10.3</b> Drwy ein gweithgarwch noddi, sicrhau bod defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu, mewn digwyddiadau diwylliannol ac yng ngwaith bob dydd ein sefydliadau diwylliannol fel ei gilydd.</p>	<p>Bydd swyddogion polisi Is-adran y Gymraeg a'r Adran Diwylliant yn parhau i gydweithredu i sicrhau lle amlycach i'r Gymraeg mewn gweithgareddau diwylliannol o bob math. Bydd hyn yn cynnwys archwilio'r berthynas rhwng iaith a diwylliant er mwyn datblygu digwyddiadau, cynhyrchion a gweithgareddau sy'n dathlu ac yn codi ymwybyddiaeth o'n diwylliant Cymraeg unigryw.</p>

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>10.4</b> Defnyddio'n dylanwad i sicrhau bod y cynnig mewn cysylltiad â radio a theledu a'r holl wahanol fathau o gyfryngau yn parhau i fod yn gyfoes ac yn berthnasol i siaradwyr Cymraeg o bob oed.</p>	<p>Wrth ddyfarnu neu adolygu trwyddedau radio ar gyfer gorsafoedd yng Nghymru, byddwn yn parhau i atgoffa Ofcom a Llywodraeth y DU y dylid rhoi ystyriaeth i natur ddwyieithog Cymru a phwysigrwydd y Gymraeg. Byddwn yn gwneud hynny drwy bennu yn y cytundeb y bydd nifer penodol o oriau'n cael eu darlledu yn Gymraeg ynghyd â datganiad am gynnwys ar y we yn Gymraeg, megis testun, ffrydiau a chlipiau fideo. Dylid gosod amrywiaeth ieithyddol, yn enwedig o ran y Gymraeg mewn gwasanaethau i Gymru, fel targed wrth ddyfarnu a rheoleiddio gwasanaethau i Gymru.</p>
<p><b>10.5</b> Parhau i gefnogi'r diwydiant cyhoeddi i sicrhau bod dewis eang o gyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg ar wahanol fformatiau, er mwyn bodloni'r galw gan wahanol gynulleidfaoedd.</p>	<p>Drwy Gyngor Llyfrau Cymru, byddwn yn parhau i gefnogi'r diwydiant cyhoeddi i sicrhau bod dewis eang o gyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys llyfrau a chylchgronau i oedolion ac i blant, a'r gefnogaeth i'r Gwasanaeth Newyddion Digidol (Golwg 360).</p> <p>Yn ystod 2018–19, bydd sylw arbennig yn cael ei roi i lyfrau plant a phobl ifanc (i wireddu rhai o argymhellion adroddiad terfynol Siwan Rosser – <i>Arolwg Llyfrau Plant a Phobl Ifanc</i>, a gyhoeddwyd yn 2017).</p> <p>Bydd y tendr cylchgronau yn cael ei ddyfarnu ar gyfer 2019–23, felly bydd cyfle i edrych eto ar y ddarpariaeth cylchgronau, gan obeithio y bydd syniadau newydd yn codi yn ystod y broses.</p> <p>Drwy gydweithrediad â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, bydd ugain o lyfrau darllen yn cael eu cyhoeddi ar gyfer dysgwyr ar lefelau penodol.</p> <p>Bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn arwain y gwaith ar ran Adran Iechyd Llywodraeth Cymru (a thrwy'r Reading Agency) i sicrhau bod y llyfrau Darllen yn Well 'Llyfrau ar Brescripsiwn' ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg. Bydd y 'Ddarpariaeth Dementia' yn cael ei chyhoeddi yn ystod 2018–19 a 'Rhestr Iechyd Meddwl Cyffredinol' yn cael ei chyhoeddi yn ystod 2019–20.</p>

## 11. Cymru a'r byd ehangach

**Ein nod:** sicrhau bod y Gymraeg yn rhan ganolog o'n hymdrechion i greu pontydd rhwng Cymru a'r byd a'i gwneud yn gyfrwng i groesawu a chymhathu pobl sy'n symud i Gymru.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>11.1</b> Arwain drwy esiampl drwy gofleidio ein hiaith a'n diwylliant unigryw wrth gysylltu â'r byd ehangach, gan sicrhau ein bod yn achub ar bob cyfle i'w plethu i mewn i ddigwyddiadau cenedlaethol pwysig.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grant blynyddol o £90,000 i Ysgol Gymraeg Llundain. Mae'r ysgol hon yn hyrwyddo'r Gymraeg yn Llundain ac yn darparu addysg gynradd Gymraeg i blant, y mae nifer ohonynt yn dychwelyd, maes o law, i'r system addysg Gymraeg yng Nghymru.</p>
<p><b>11.2</b> Arwain drwy esiampl fel Llywodraeth, gan hybu'r Gymraeg ar lwyfan byd-eang a chroesawu manteision bod yn wlad ddwyieithog drwy ddylanwadu ar holl ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu'r Llywodraeth fel bod ein statws fel gwlad ddwyieithog yn cael ei weld fel elfen werthu unigryw yn y byd ehangach.</p>	<p>Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg a dwyieithrwydd fel erfyn marchnata mewn cyd-destunau priodol.</p>
<p><b>11.3</b> Gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy i ymwelwyr a'i gwneud yn haws iddynt ddod ar draws y Gymraeg a'i dysgu drwy dreialu ymyriadau, fel Prosiect Pecyn Croeso â Chyngor Sir Ynys Môn, ac os yw hwn yn llwyddiant, ei ehangu i awdurdodau lleol eraill.</p>	<p>Bydd y prosiect Croeso i Gymru, Croeso i'r Gymraeg yn cael ei ehangu yn Ynys Môn fel rhan o waith paratoadol Wylfa Newydd. Bydd y cynllun hefyd yn cael ei dreialu yn Sir Gâr.</p>
<p><b>11.4</b> Datblygu gwell cefnogaeth i wella'r broses o integreiddio mewnddyfodiaid â chymunedau Cymraeg eu hiaith, yn debyg i Raglen Voluntariat per la Llengua yng Nghatalwnia.</p>	<p>Gweler 8.6.</p>

## 12. Technoleg ddigidol

**Ein nod:** sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd arloesi mewn technoleg ddigidol i'w gwneud yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>12.1</b> Buddsoddi mwy mewn ymchwil ac arloesi ym maes technoleg iaith i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn yr oes ddigidol.</p>	<p>Byddwn yn llunio Cynllun Gweithredu Technoleg a'r Gymraeg manwl drwy Fwrdd Technoleg Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, a fydd yn nodi'r holl gamau angenrheidiol i normaleiddio a chefnogi'r Gymraeg ym myd technoleg.</p>
<p><b>12.2</b> Archwilio cyfleoedd i fuddsoddi, i gydweithredu ac i rannu adnoddau a thechnegau i gefnogi ein seilwaith technolegol (cyfieithu â chymorth cyfrifiaduron, technoleg deallusrwydd artiffisial (AI), adnabod llais, ac ati) er mwyn iddi fod yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ar ddyfeisiau electronig.</p>	<p>Mae'r broses o ddrafftio'r Cynllun Gweithredu Technoleg a'r Gymraeg a'i roi ar waith o reidrwydd yn golygu y byddwn yn archwilio cyfleoedd i fuddsoddi, cydweithredu a rhannu adnoddau a thechnegau.</p>
<p><b>12.3</b> Cefnogi datblygu adnoddau digidol newydd dwyieithog i'w defnyddio mewn ysgolion, yn y gweithle ac wrth gymdeithasu.</p>	<p>Byddwn yn adnabod anghenion ac yn datblygu rhaglen gomisiynu ar gyfer ysgolion i fodloni gofynion y cwricwlwm a'r cymwysterau newydd.</p> <p>Y flaenoriaeth yn y gweithle fydd cyfieithu peirianyddol a hyrwyddo systemau sy'n helpu cyfieithwyr i awtomeiddio eu prosesau a rhannu eu cofau cyfieithu.</p> <p>Yn gymdeithasol, dechreuir ar y gwaith o ddatblygu system lleferydd i destun a fydd yn rhyddhau siaradwyr Cymraeg o'r orfodaeth i deipio gorchmynion wrth ddefnyddio ffonau, llechi a chyfrifiaduron.</p>
<p><b>12.4</b> Parhau i gymell y prif gwmnïau technoleg i gynyddu'r ddarpariaeth a gynigir ganddynt yn y Gymraeg.</p>	<p>Hwylusir y ddeialog drwy ddatblygu'r math o seilwaith technoleg iaith Gymraeg sydd ei hangen ar y cwmnïau mawr er mwyn gallu cynnig cefnogaeth i siaradwyr Cymraeg. Yr her fydd eu darbwyllo o'r achos busnes i wneud hynny.</p>

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>12.5</b> Sicrhau bod y rhai sy'n cael grantiau gennym a sefydliadau sy'n hybu'r Gymraeg yn defnyddio technoleg yn dda, gan gynnwys systemau data, cyfathrebu mewnol, y cyfryngau cymdeithasol ac adnoddau marchnata.</p>	<p>Yn 2018–19, wrth ddyrannu grant i hybu a hyrwyddo'r Defnydd o'r Gymraeg, byddwn yn sicrhau bod y meysydd technoleg a marchnata yn cael eu cynnwys. Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg am ddatblygiadau newydd yn y meysydd hyn.</p>
<p><b>12.6</b> Cefnogi ymdrechion i gynyddu nifer y tudalennau Cymraeg ar Wicipedia.</p>	<p>Bwriedir parhau gyda'r anogaeth i gymunedau o wirfoddolwyr Wicipedia Cymraeg weithredu, drwy gynnig cymorth ariannol i gefnogi gweithdai a'r broses o greu erthyglau Cymraeg drwy ddulliau awtomatig.</p> <p>Bydd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn annerch cynhadledd y Celtic Knot yn y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth ar 5 Gorffennaf 2018.</p>

## 13. Seilwaith ieithyddol

**Ein nod:** sicrhau bod seilwaith ieithyddol y Gymraeg (geiriaduron, terminoleg, y proffesiwn cyfieithu) yn parhau i ddatblygu ac yn rhan annatod o'r broses o weithredu'r Strategaeth Cymraeg 2050.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>13.1</b> Adolygu'r strwythurau presennol i sicrhau bod gennym bolisi corpora cynaliadwy (h.y. casgliad mawr o destunau wedi'u hargraffu neu recordiadau sain) ar gyfer y Gymraeg.</p>	<p>Byddwn yn dechrau ar y gwaith o ddatblygu polisi i gwmpasu'r gwahanol elfennau ar seilwaith ieithyddol y Gymraeg, e.e. corpora, geiriaduron, terminoleg, y proffesiwn cyfieithu.</p>
<p><b>13.2</b> Cefnogi cynhyrchu rhagor o adnoddau geiriadurol, corpws a therminolegol o ansawdd uchel i gefnogi dysgwyr a siaradwyr rhugl.</p>	<p>Yn ystod 2018–19, byddwn yn dechrau ar y gwaith o lunio polisi a fydd yn cynnwys gweithredu ym maes geiriadura, corpws a therminoleg.</p> <p>Yn sgil datblygiad WordNet Cymraeg yn 2017–18, bwriadwn ariannu rhagor o ddatblygiadau technolegau iaith a thestun.</p> <p>Bydd angen corpora o ddata er mwyn hyfforddi datblygiadau cyfieithu, lleferydd i destun a deallusrwydd artifisial newydd.</p>
<p><b>13.3</b> Parhau i gefnogi cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd Cymraeg fel bod gan y sector y gallu i fodloni'r galw cynyddol am wasanaethau cyfieithu achrededig o safon, a bod y systemau diweddaraf a ddefnyddir o ran cyfieithu peiriant ar gael i'r sector i wella cywirdeb, cyflymder a chysondeb cyfieithu.</p>	<p>Byddwn yn parhau i gefnogi Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, sy'n achredu ac yn cefnogi cyfieithwyr yng Nghymru.</p> <p>Byddwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu platfform hyfforddi cyfieithu ar y pryd newydd.</p> <p>Bydd dyfodol y proffesiwn cyfieithu yn un o'r themâu y byddwn yn eu hystyried wrth i ni baratoi i lunio polisi newydd ar gyfer seilwaith ieithyddol y Gymraeg.</p> <p>Byddwn yn parhau i ddatblygu Cynllun Gweithredu Technoleg a'r Gymraeg, a fydd yn ymdrin â'r dechnoleg sydd ar gael i helpu cyfieithwyr wrth eu gwaith, gyda'r nod o'i gyhoeddi yn ddiweddarach yn ystod 2018–19.</p>

## 14. Cynllunio ieithyddol

**Ein nod:** sefydlu cynllunio ieithyddol a hybu'r iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol fel elfennau hanfodol, gan ddeall dwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Cymraeg yn well a'u cefnogi.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<b>14.1</b> Sefydlu bwrdd rhaglen i sefydlu egwyddorion cynllunio ieithyddol a'r weledigaeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ar draws gwaith y Llywodraeth.	Byddwn yn symud ymlaen i sefydlu bwrdd rhaglen i brif ffrydio'r strategaeth ym mhob un o feysydd polisi Llywodraeth Cymru.
<b>14.2</b> Lansio rhaglen hyfforddi genedlaethol – Deall Dwyieithrwydd.	Gweler 6.4.
<b>14.3</b> Gweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi eu hymdrechion i adeiladu capasiti i gynllunio ar gyfer y Gymraeg, gan eu cefnogi yn y gwaith o weithredu a chyd-gordio y strategaethau sirol ar gyfer hybu'r Gymraeg, Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a'u dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.	Byddwn yn prif ffrydio'r Gymraeg i waith adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r targed hwn.

## 15. Gwerthuso ac ymchwil

**Ein nod:** parhau i adeiladu ar ein tystiolaeth am y Gymraeg a'i siaradwyr fel sail ar gyfer asesu effeithiolrwydd ein hymyriadau a datblygu polisi ar gyfer y Gymraeg.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2018–19
<p><b>15.1</b> Parhau i ddatblygu ein sail dystiolaeth, a nodi cyfleoedd i gydweithio gyda phartneriaid ymchwil yng Nghymru a thu hwnt pryd bynnag y mae hynny'n bosibl.</p>	<p>Bydd y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag Is-Adran y Gymraeg a swyddogion polisi eraill i weithredu'r Cynllun Tystiolaeth ar gyfer y Gymraeg 2018–19. Mae'r cynllun yn cynnwys gwerthusiadau o'r Cyfnodau Sabothol i ymarferwyr addysg, y Siarter Iaith Gymraeg, Cymraeg i Blant, yn ogystal ag astudiaeth ymchwil ar y Gymraeg a'r economi.</p> <p>Byddwn yn datblygu fframwaith gwerthuso ar gyfer Strategaeth Cymraeg 2050, i gefnogi'r broses o gynllunio tystiolaeth y tu hwnt i 2018–19.</p> <p>Byddwn yn parhau i feithrin a chynnal partneriaethau ymchwil, drwy ein prosesau comisiynu a hefyd drwy gyfrannu lle bo hynny'n bosibl at weithgaredd ymchwil sefydliadau addysg uwch a chyrrff eraill. Bydd hyn yn cynnwys darparu cefnogaeth i ysgoloriaethau doethurol ym maes dysgu iaith.</p>
<p><b>15.2</b> Archwilio ffyrdd o ychwanegu at ein dealltwriaeth o brofiadau ieithyddol siaradwyr yn ystod eu hoes. Byddwn hefyd yn archwilio dulliau o gasglu gwybodaeth ynghylch defnydd siaradwyr o'r Gymraeg drwy Arolygon Defnydd Iaith.</p>	<p>Bydd y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn archwilio posibiliadau casglu a dadansoddi data a/neu gynnal gwaith ymchwil am unigolion dros amser. Bydd hyn yn cynnwys data am unigolion sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg iaith gyntaf yn ystod eu hamser yn y gyfundrefn addysg.</p> <p>Byddwn hefyd yn archwilio opsiynau ac yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid er mwyn cynllunio ar gyfer cynnal arolygon defnydd iaith yn y dyfodol, gan ystyried amseru'r cyfrifiad nesaf (yn 2021) ac arolygon aelwydydd eraill.</p>